Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Cowell Street Skin and Hair Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 29 Mai 2025
Dyddiad cyhoeddi: 29 Awst 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn:0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80633-341-7

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ....................................................5

2. Crynodeb o'r arolygiad ....................................................6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ....................................................8

- Ansawdd Profiad y Claf ....................................................8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .................................... 10
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .................................... 12

4. Y camau nesaf .................................................... 13

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........... 14

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .................................... 15

Atodiad C - Cynllun gwella .................................................... 17

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cowell Street Skin and Hair ar 29 Mai 2025.

Cyn yr arolygiad, cawsom ein hysbysu gan y lleoliad am ei benderfyniad i ddadgofrestru a rhoi'r gorau i ddarparu ei wasanaeth trawsblannu gwallt. Mae hyn yn golygu nad oedd y gwasanaeth trawsblannu gwallt yn rhan o'r arolygiad hwn.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 15 holiadur gan gleifion. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y cleifion a oedd yn cael triniaethau laser yn y gwasanaeth yn cael profiad cadarnhaol. Roedd y clinig yn fodern, yn ddeniadol ac yn cynnig lefel dda o breifatrwydd. Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ym mhob maes.

Roedd digon o wybodaeth glir yn cael ei rhoi i gleifion cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth i helpu i reoli disgwyliadau a sicrhau triniaeth effeithiol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiwygio'r polisi hebryngwyr i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r arferion y gall y clinig eu cyflawni.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn
- Roedd y clinig yn fodern, yn fawr, ac yn ddeniadol

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd prosesau da ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer defnyddio'r cyfarpar laser a'i gynnal a'i gadw'n barhaus.

Roedd cofnodion da yn cael eu cadw ac roedd dogfennau safonol yn cael eu defnyddio i gofnodi hanes meddygol cleifion, cydsyniad, a manylion y triniaethau a roddwyd. Roedd pob claf yn cael prawf croen yn ogystal â chyngor ar ôl-ofal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Trefniadau addas ar gyfer defnyddio'r cyfarpar laser a'i gynnal a'i gadw'n barhaus
- Prosesau cynllunio triniaethau a chadw cofnodion da
- Mesurau rheoli heintiau da a chlinig glân.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio ar y claf, ac roedd yr ail weithredwr laser wedi'i hyfforddi'n briodol i ddarparu triniaethau.

Roedd cyfres gymesur o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ac roedd cofnodion hyfforddiant ar gael yn hawdd yn y clinig. Roedd hyfforddiant ar-lein ar gael i'r rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser i sicrhau eu bod yn dysgu ac yn datblygu'n barhaus.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Staff brwdfrydig sy'n canolbwyntio ar y claf.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**
Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur AGIC. Cawsom 15 o holiaduron wedi'u cwblhau, yr oedd pob un ohonynt yn cynnwys adborth cadarnhaol am y profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth ac yn nodi bod y gwasanaeth yn dda.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Cefais fy nhrin ag urddas a pharch. Trafodwyd y driniaeth ac roeddwn yn hapus iawn gyda'r canlyniadau."*
>
> *"Hapus iawn gyda'r canlyniadau ar ôl fy nhriniaeth."*

**Diogelu a gwella iechyd**
Gofynnwyd i gleifion roi hanes meddygol cynhwysfawr cyn eu triniaeth gychwynnol ac ailgadarnhawyd yr hanes hwn cyn unrhyw driniaethau dilynol. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur fod eu hanes meddygol wedi'i gofnodi cyn eu triniaeth.

Byddai'r claf a'r gweithredwr laser yn llofnodi hanesion meddygol, ac roedd y rheolwr cofrestredig yn gwybod sut i geisio cyngor pe bai unrhyw wrtharwyddion, fel cysylltiad diweddar â'r haul.

**Urddas a pharch**
Dywedwyd wrthym fod ymgyngoriadau a thriniaethau cleifion bob amser yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin a bod cleifion yn cael amser i newid cyn ac ar ôl y driniaeth. Roedd arwyddion priodol ar y drysau i gynnig lefel ychwanegol o breifatrwydd a diogelwch.

Roedd y polisi hebryngwyr wedi'i ddiweddaru i ganiatáu i hebryngwyr, gan gynnwys ail aelod o'r staff, fod yn bresennol yn ystod triniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid diwygio'r polisi hwn i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n agosach y gwasanaeth y gall y clinig ei hwyluso'n hawdd, er enghraifft caniatáu i ffrind neu berthynas fod yn bresennol. Gwnaethom gadarnhau bod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael ac yn cael ei roi i hebryngwyr sy'n bresennol yn ystod triniaeth.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiwygio'r polisi hebryngwyr i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r arferion y gall y clinig eu cyflawni'n hawdd.**

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth berthnasol i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth. Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb, a oedd yn cynnwys trafodaeth am risgiau, manteision, a chanlyniadau tebygol y driniaeth dan sylw. Defnyddiwyd diagramau gweledol i helpu cleifion i ddeall.

Roedd y ffurflen gydsynio mewn fformat priodol, a gwnaethom gadarnhau bod cydsyniad yn cael ei roi cyn y driniaeth gychwynnol a chyn unrhyw driniaethau dilynol. Roedd cyngor ar ôl-ofal yn cael ei roi i gleifion yn dilyn eu triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth a'u bod wedi cael digon o wybodaeth am yr opsiynau triniaeth, y risgiau a'r manteision, gan gynnwys cyngor ar ôl-ofal i hwyluso'r broses wella a helpu i atal heintiau.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus ac yn canolbwyntio ar y claf wrth ddisgrifio'r broses o ymgysylltu'n effeithiol â chleifion cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth.

Roedd gwybodaeth addas ar gael i gleifion ei darllen yn y clinig a gartref. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a bod y staff wedi gwrando arnynt.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd polisi cwynion priodol a gweithdrefn gwyno briodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Gwnaethom gadarnhau nad oedd y gwasanaeth wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol mewn perthynas â'r gwasanaeth laser hyd yn hyn, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig proses briodol i gofnodi cwynion ffurfiol (ysgrifenedig a llafar) ac anffurfiol.

Gwelsom dystiolaeth bod adborth yn cael ei geisio gan gleifion cyn triniaethau pellach er mwyn cofnodi unrhyw adweithiau andwyol ysgafn a rheoli disgwyliadau cleifion.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Yr Amgylchedd**
Mae'r clinig yn fodern, yn ddeniadol ac mewn cyflwr da. Roedd cynllun y clinig yn cynnig lefel dda o breifatrwydd i gleifion gael ymgyngoriadau, newid, a chael triniaethau heb fod neb yn tarfu arnynt.

Mae'r gwasanaeth ei hun wedi'i leoli ar ail lawr yr adeilad, a all gyfyngu ar allu rhai cleifion i ddefnyddio'r gwasanaeth.

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant i wardeiniaid tân. Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac nid oedd unrhyw gamau gweithredu ar unwaith wedi'u nodi

Roedd y gwiriad gwifrau bob pum mlynedd a'r gwiriad diogelwch nwy blynyddol wedi'u cwblhau i sicrhau diogelwch parhaus. Roedd sticeri profion offer cludadwy (PAT) i'w gweld ar y cyfarpar trydanol.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac roedd pecyn cymorth cyntaf gyda digonedd o stoc gyfredol ar gael yn hawdd.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd y clinig yn fodern ac yn lân yr olwg, ac roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod trefniadau atal a rheoli heintiau da ar waith yn y gwasanaeth.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau cyn, yn ystod ac yn dilyn triniaethau. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio menig a chyfarpar diheintio untro, fel cyfarpar laser a chyfarpar amddiffyn y llygaid.

Roedd contractau gwastraff clinigol ar waith gyda darparwr allanol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd polisi diogelu ar waith i'r staff ei dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant.

Ni ddylai'r gwasanaeth hwn ddarparu unrhyw driniaethau i bobl dan 18 oed, a gwnaethom gadarnhau hyn gyda'r rheolwr cofrestredig.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom gadarnhau bod y cyfarpar laser wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau bod Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi'i benodi, a oedd wedi adolygu ac ailgyhoeddi'r rheolau lleol yn ystod y 12 mis diwethaf i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas. Roedd tystiolaeth bod y cyfarpar wedi'i wasanaethu a'i galibradu'n ddiweddar, ynghyd â thystiolaeth bod camau unioni wedi'u cymryd lle bo angen.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn bosibl y caiff triniaethau eu darparu o glinig trydydd llawr yn y dyfodol agos. Gwnaethom ei gynghori y bydd angen iddo gysylltu â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau i gadarnhau bod y trefniadau hyn yn addas, os byddant yn cael eu rhoi ar waith.

Roedd y protocolau triniaeth wedi'u cyhoeddi gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC).

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gweithgynhyrchwr ar ddefnyddio'r peiriannau laser. Roedd hyn yn cynnwys tystysgrif laser a goleuni pwls dwys lefel 4.

Rhaid i bob claf newydd gael prawf croen, a gwnaethom gadarnhau bod hwn yn cael ei gynnal o leiaf 48 awr cyn y driniaeth. Gwelsom dystiolaeth bod hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnodion cleifion a welsom, a chadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael y prawf hwn cyn iddynt gael eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig am ôl-ofal ar gael i'r cleifion a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i hwyluso'r broses wella ac arweiniad clir o ran sut i edrych am arwyddion a symptomau haint.

**Rheoli cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau i safon dda. Roedd dogfennau safonol yn cael eu defnyddio i gofnodi hanes meddygol cleifion, cydsyniad, a manylion y triniaethau a roddwyd.

Er mai cofnodion papur oeddent, roeddent yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet ffeilio ar safle'r clinig. Roedd y cofnodion yn drefnus ac ar gael yn hawdd pe bai unrhyw bryderon yn codi.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Y rheolwr cofrestredig yw prif weithredwr laser y gwasanaeth, a chaiff ei gefnogi gan weithredwr laser rhan amser.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y gwasanaeth a oedd yn gymesur i faint y clinig a natur y triniaethau dan sylw.

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig na fu unrhyw gwynion ffurfiol na digwyddiadau hyd yn hyn. Disgrifiodd y broses gwyno a gwelsom fod y weithdrefn yn briodol, a bod AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb i hysbysu AGIC am unrhyw ddigwyddiad difrifol.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Roedd llwyfan hyfforddiant ar-lein cynhwysfawr ar gael i'r rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser, a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd a oedd yn berthnasol i weithredu'r clinig.

Roedd pob tystysgrif hyfforddiant ar gael yn hawdd ar y safle. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhad o hyfforddiant yn ymwneud yn benodol â'r peiriannau laser a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig ac roedd yn awyddus iawn i ddatblygu ei sgiliau a'i wybodaeth mewn perthynas â thriniaethau estheteg laser yn barhaus.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ddim yn gymwys | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth:

## Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ddim yn gymwys | | | | | |
| 2. | | | | | | |
| 3. | | | | | | |
| 4. | | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Cowell Street Skin and Hair Clinic

## Dyddiad yr arolygiad: 29 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | | Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiwygio'r polisi hebryngwyr i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r arferion y gall y clinig eu cyflawni'n hawdd. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 16 | Mae'r polisi hebryngwyr wedi'i ddiweddaru | P Hart | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** P Hart

**Teitl swydd:** Rheolwr Cofrestredig

**Dyddiad:** Gorffennaf 2025